



Mareike Krügel

Merch fy Nhad

Novel

Sample Translation: Mererid Puw Davies



HALMA The European Network of Literary Centres e.V. 2010
www.halma-network.eu
mail@halma-network.eu

Erster Teil

tt. 7-10:

F. Lauritzen, Ymgwymerwr meddai'r arwydd yn ffenest y swyddfa. Arwydd bach du a gwyn mewn ysgrifen eglur. Fy nhad a'i gynlluniodd o ei hun. Yn ôl fy mam, roedd yr arwydd yn rhy fychan ac mi fuasai hi wedi hoffi ei addurno fo efo croes ddu neu rywbeth felly, ond roedd fy nhad am iddo fo fod mor gynnil â phosib.

Wrth ichi fynd i lawr y ffordd i'r traeth, heibio i ganol pentref Kleinulsby, tua'r un pellter â'r tai newydd, roedd y tŷ efo'r arwydd yn y ffenest ar y llaw dde. Pan fyddai rhywun yn mynd i mewn trwy ddrws y swyddfa o'r stryd, byddai lamp fach yn yn dod mlaen yn ein stafell fyw ni. Yna byddai fy nhad yn sythu ei dei a mynd i gyfarch yr ymwelydd. Mi fuasai'n well gan fy mam fod wedi cael cloch ddel wrth y drws; roedd y lamp cyhoeddi ymwelwyr yn ofid iddi hi am nad oedd hi'n ddim byd mwy na bylbedi wedi ei sgriwio ar ryw fath o goes ar ganol y seld, ac am bod y weiar iddi hi wedi ei glynu efo tâp ar hyd y nenfwd gan fy nhad. Ond roedd yn well gan fy nhad ymddangos o'r unman, fel ysbryd, yn hollwybodus ac yn gynnil.

Doedd gennym ni fawr o gwsmeriaid. Mi fyddai'r hen bobl yn Kleinulsby yn mynd at yr ymgwymerwyr yn Eckernförde neu Kappeln, am nad oedden nhw'n ymddiried mewn neb oedd yn byw yn y pentref ers cyn lleied o amser. Ac ni fyddai neb lawer o'r tai newydd yn marw. Teuluoedd ifainc oedd yn byw yn y rheiny, tai wedi eu dewis o gatalog, y tu ôl i erddi lle nad oedd dim byd yn tyfu eto, heblaw am un neu ddau o amlenni papur bach ar briciau. Roedd marwolaethau yn y tai newydd yn arbennig o drist, ac mi fyddem ni'n eu trin nhw yn arbennig o ofalus. Roedd fy nhad yn cyfri ar fagu cwsmeraid triw. Doedd dim ots ganddo fo nad oedd mynd mawr ar y busnes, am ei fod o'n gwybod ei fod o'n paratoi'r tir ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Ar fy nghyfer i felly. Pan fyddwn i tua'r tri deg oed, mi fyddai pobl y tai newydd yn dechrau marw'n naturiol, un ar ôl y llall, ac wedyn mi fydden nhw i gyd yn dod at F. Lauritzen, Ymgwymerwr, am eu bod nhw wedi ymddiried yn fy nhad, ac ynddo i ar ei ôl o. Dyna oedd egwyddor busnes teuluol, ac un o'r rheiny oedd fy nhad wedi ei sefydlu. Dyna pam mod i o'r enw Felizia. Felly yn nes ymlaen, ni fuasai angen imi newid hyd yn oed yr F. yn F. Lauritzen.

Mi ddechreuodd fy mam, oedd yn hoffi cynllunio mewn da bryd ac yn deall am faterion o chwaeth esthetig, gasglu enwau yn ei chweched mis a chadw rhestr a osodai hi o dan ei gobennydd bob nos. Friedrich, Fridolin, Frieder, Fileas, Ferdinand, Florian, Frederic oedd ar y rhestr. Pan ges i ngeni, a geneth oeddwn i, fedrai hi ddim meddwl am yr un enw imi oedd yn dechrau efo F.

“Dywed rhwbeth yn reit sydyn rwan, ac mi fedra'i fynd yn syth i'w gofrestru o”, meddai fy nhad.



HALMA The European Network of Literary Centres e.V. 2010

www.halma-network.eu

mail@halma-network.eu

“Felizia”, meddai fy mam. Wedi i fy nhad fynd, mi feddyliodd hi am enwau llawer neisiach yn dechrau efo F. (Floriane, Franziska), ond roedd hi’n rhy hwyr. A doedd dim ots beth bynnag, cyn belled mai F. Lauritzen oedd fy enw innau.

Wnaeth fy mam ddim anobeithio, a chadwodd y rhestr o dan ei gobennydd, ond ar fy ôl i ddaeth yna neb arall.

Dyn bychan oedd fy nhad, efo dwylo’n llawn gïau a chroen fel lledr. Mi fyddai’n gwisgo siwt dywyll bob amser. Yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, mi wnai o ymdrech bob amser yn ei amser hamdden (ac roedd mwy o hwnnw ganddo fo nag a ddymunai) i fynd i blith pobl, er mwyn iddyn nhw gael arfer efo fo. Bob tro yr oedd o’n ei gweld hi’n addas, mi fyddai o’n mynd â fi efo fo hefyd, tra bod fy mam yn sefyll yn y bwlch gartref, ac mi fydden ni’n treulio oriau lawer yn gwagswmera yn nigwyddiau a dathliadau gwahanol gymdeithasau, Urdd yr Esgyrn Briw a Chlwb Claddu Eckernförde, ac wrth gwrs ffeiriau a gweithgareddau rheolaidd yr eglwys. Bryd hynny mi safwn i’n glôs yn ei ymyl a dysgu’r grefft.

Anaml y byddai fy nhad yn sgwrsio ar y fath achlysuron, os nad oedd rhywun yn tynnu sgwrs efo fo. Mi fyddai’n gwrtais eithriadol. Mi ddysgodd o imi mai disgyblaeth bennaf yr ymgymwrwr ydi bod wrth law pan fo galw, ond byth i fod yn geffyl blaen. Mi all un cip ar ymgymwrwr daro parti fu gynnau’n llawen yn hollol fud, meddai fo; ac eto, mewn sefyllfaoedd eithafol a chas, mi all roi cysur disymwth dim ond trwy gerdded trwy’r drws. Yn ogystal, roedd fy nhad yn credu yn nylanwad hysbysebu ar yr isymwybod.

“Pan fydd un o’r bobol ma’n cael profedigaeth, mi eith o i’r llyfr ffôn i chwilio am ymgymwrwr”, meddai fo wrtha i. “A ni wneith o’u ffônio. Ac wyddost ti pam? Am ein bod ni yn ei isymwybod o. Pan fydd o’n dychmygu ymgymwrwr, ei llun ni ddaw i’w feddwl o. Fel’ne mae hysbysebu’n gweithio, a dyne pam ein bod ni’n gwneud dim byd ond sefyllian yn fan hyn rwan, mewn golwg ond led braich. Wyt ti wedi deall hynne rwan, Felix?”

Nodiais i.



HALMA The European Network of Literary Centres e.V. 2010

www.halma-network.eu

mail@halma-network.eu

tt. 60-61.

Fedra'i ddim cofio'r angladd cyntaf imi ei gynnal i anifail, ond ar lan y môr, yn go bell o'r ffordd, roedd yna fynwent anifeiliad sylweddol, ac roedd pob un a gladded yno yn gwsmer i F. Lauritzen, Ymgymwrwr. Roedd yno lawer o lygod daear, wedi cael damwain ar y ffordd neu wenwyn, llyffantod wedi crebachu, adar y to wedi malu'u penglogau ar ffenestri caeedig, twrch daear neu ddau, un gwningen, dwy wylan a chath wnaeth rhywun redeg drosti hi mewn car, ac a gladdwyd gen i cyn imi gael gwybod mai cath Frau Börnsen y Pobydd oedd hi. Roedd Frau Börnsen yn gweld colli ei chath yn ofnadwy, a rhoddodd luniau ohoni hi trwy'r pentref cyfan gan obeithio y gwnâi rhywun ddod â hî'n nôl. Er imi ystyried y peth yn hir, yn y pen draw feiddiwn i ddim datgladdu'r gath a'i rhoi hî'n nôl ar y ffordd lle ces i hyd iddi. Roedd fy nhad wedi dweud wrtha i bod y meirw'n pydru yn y pridd, a doedd gen i ddim syniad pa mor gyflym. Yn sicr mi fuasai Frau Börnsen wedi bod yn amheus pe bai ei chath wedi ymddangos ar y ffordd mewn cyflwr pydredig, a doeddwn i ddim am fentro gwneud unrhywbeth wnâi beri i neb ddechrau fy holi'n annifyr am fy ngweithgareddau hamdden.

Doedd dim eirch i'r anifeiliad, ond mi roedd eu hangladdau'n benigamp. Mi safwn i am amser maith ar lan y bedd a chanu, mi daflwn i bridd i mewn iddo fo a beichio crio, ac mi adroddwn i faint gofiwn i o Weddi'r Arglwydd. Wedyn mi awn i am dro bach a dod nôl yn nes ymlaen i lenwi'r bedd efo pridd (erbyn hyn yn rhinwedd fy swydd fel torrwr beddau). Nôl gartre, swper oedd y tê claddu, ond ni wyddai neb ond y fi. Wnes i ddim sôn hyd yn oed wrth Gunnar am y fynwent, oherwydd doedd Gunnar ddim yn deall sut allwn i wneud unrhywbeth arall yn y pwniau heblaw am ymarfer dringo.

Roedd hî'n bnawn oer a llaith, ac mae'n rhaid mai rhyw naw oed oeddwn i. Roedd Gunnar wedi mynd tua thre ar y bws ysgol, ac roeddwn i wedi cael cinio gartre a gwisgo fy siwt chwarae biws, oedd eisoes wedi mynd yn rhy fyr i'm breichiau a'm coesau i. I ffwrdd â fi, cyn gynted ag y gallwn i, am nad oedd gen i fawr o amser cyn iddi dywyllu, ac roedd yn rhaid imi fod yn ôl gartref erbyn i olau'r stryd ddod mlaen. Rhedais i lawr y ffordd i'r traeth, ac arafu dim ond wedi imi fynd heibio i'r tai ola. Wedyn mi gysidrais beth ddylwn i ei wneud efo'r pnawn. Mi benderfynais daflu cerrig ar y traeth.

Roedd yna niwl yn isel dros y dŵr, a'r awyr yn llaith ar fy nwyneb a dwylo. Mi ddechreuais i chwilio am garegos fflat, ond doedd hwn ddim yn ddiwrnod da i gael hyd i gerrig sglentio. Chefais i ddim hyd i lawer, ac ar ben hynny, roedd y rhan fwya ohonyn nhw yn rhy fawr i fy llaw i, yn glapiog a garw, a phan oeddwn i'n eu taflu i'r dŵr, dim ond sboncio unwaith neu ddwy wnaen nhw cyn i'r niwl eu llyncu. Mi gerddais yn bellach ac yn bellach ar hyd troed y clogwyn ac i mewn i'r bae, a hoelio fy llygaid ar y ddaear. Pan gawn i hyd i garreg addas, mi godwn i hi, ei glanhau, ei



phwyso yn fy llaw a'i throi a'i throsi nes ei bod yn yr union le rhwng fy mys a fy mawd. Yna mi awn i cyn agosed ag y medrwn i at y dŵr, camu mlaen efo fy nhroed chwith, a thaflu'r garreg, o'r arddwrn, yn unionsyth uwchben wyneb y dŵr.

Dim ond un garreg gefais i hyd iddi hi y diwrnod hwnnw oedd wir yn addas i'w sglentio. Un lefn ac arbennig o fflat, ei hochr isa fymryn yn grwn, yn ddim mwy na fy llaw, ac mi gefais rhyw deimlad difrifddwys wrth sefyll ar fin y dŵr efo'r garreg hon. Mi wnâi hi sboncio ddeuddeng gwaith o leiaf. Ond wrth imi ei thaflu, cefais gip ar rywbeth yn y dŵr wrth fy nhraed, rhywbeth oedd yn siglo nôl a mlaen efo'r tonnau, ac mi fethais â gollwng y garreg ar yr eiliad dyngedfennol, mi hedodd trwy'r awyr ar ormod o fwa, glanio ar wyneb y dŵr, plwmpian, a suddo'n syth bin. Mi edrychais i lawr unwaith eto, ond fedrwn i ddim credu fy llygaid, mor annhebygol yr edrychai'r peth a welwn i. Felly mi es i ar fy nghwrcwd, pwysu mlaen fel na fuasai fy sgidiau'n gwlychu, ac ystyn y peth o'r dŵr. Mi gariais o at droed y clogwyn, eistedd i lawr ar garreg fawr a chau fy llygaid am funud. Pan agorais i nhw eto, roeddwn i'n dal i gydio yn yn union yr un peth a oeddwn i wedi ei weld yn y dŵr.

Braich gyfan oedd hi, o'i chesail i ben ei bysedd. Roedd hi'n ryw liw llwydaidd, y gwythiennau ar ei hochr isa yn las, y penelin fymryn yn biws. Roedd hi'n drom ac yn oer ac yn llaith, ond ollyngais i mohoni hi. Am mod i'n teimlo y medrwn i feddwl yn well wrth gerdded nag wrth eistedd, ac am ei bod yn dechrau tywyllu, mi gychwynnais yn ôl ar hyd y traeth am Ulsby. Bob yn hyn a hyn roedd rhaid imi stopio, am bod y fraich wir yn drom, ac hefyd am bod rhaid imi edrych arni hi.

Braich dynes oedd hi. Ac mi berodd hynny gryn ddryswch imi. Wrth edrych ar fy mreichiau i fy hun, welwn i ddim byd genethaidd yn eu cylch nhw. Doedden nhw'n edrych fawr yn wahanol i freichiau Gunnar. Ond dyma fraich, heb y corff oedd yn perthyn iddi, ac eto mi wyddwn i'n syth p'run ai braich dyn neu dynes oedd hi. Mi gysidrais: pe bawn i wedi dod o hyd i goes, fuasai hynny'n amlwg? Neu gorff heb na breichiau na choesau? (buasai wrth gwrs, oherwydd y bronau). Troed? Wyneb? Gwddw? Ie, hyd yn oed pe bawn i wedi ffeindio dim byd ond trwyn neu dalcen, mi fuaswn i'n go debyg wedi medru dweud p'run ai i ddyn neu i ddynes oedden nhw wedi perthyn. Roedd rhywbeth ynglyn â'r syniad yma'n fy mhoeni i'n arw. Beth am yr holl bethau oedd y tu mewn i rywun? Yn sydyn roeddwn i'n siwr, pe bai rhywun yn ffeindio dim ond organ fewnol neu ddwy, y gellid adnabod os mai dyn neu ddynes oedd piau nhw.

Mi sefais ac edrych ar y fraich. Daliais f'un i yn ei hymyl. Braich dde oedd hi, yr ewinedd wedi eu ffeilio'n sgwâr, rhywbeth diddorol ar y naw i mi gan bod ewinedd fy mam yn hirgrwn. Mi dwtsais yr ewinedd efo blaen fy mys, a rhyfeddu dipyn bach eu bod nhw mor lân; doedd dim tywod na gwymon wedi mynd yn sownd danyn



nhw. Rhaid nad oedd y fraich wedi bod yn y dŵr yn hir iawn. Ond pam ei bod hi wedi bod yn y dŵr o gwbl? Ble oedd y person oedd yn perthyn iddi? Dim ond wedi imi gyrraedd pen draw'r clogwyni, a dechrau ffordd Kleinulsby, y cododd y cwestiwn hwnnw yn fy meddwl. Wrth edrych ar y fraich, roedd posib gweld ei bod wedi ei thorri i ffwrdd islaw'r ysgwydd. Mi gymharais hi â bôn fy mraich i. Roedd y toriad yn llyfn ac yn syth, hyd yn oed yr asgwrn wedi ei rannu'n lân. Mi archwiliais ymyl y toriad yn fwy manwl, a dod i'r casgliad mai bwyell oedd wedi ei gwahanu hi a'i pherchennog. Yn y pentref roedd llawer o bobl yn gwresogi eu tai efo tân coed, ac mi wyddwn i'n union pa mor llyfn allai bwyell dorri trwy foncyff. Dyna'r unig declyn y gwyddwn i amdano fo allai fod wedi torri'r fraich felly. Roedd rhywun wedi hollti'r fraich oddi ar y ddynes efo bwyell a'i thaflu hi i'r dŵr.

Yn y fynwent gyfrinachol mi dorrais fedd arbennig o fawr efo ffon. Roedd y pridd yn gleiog a llaith, dim ond munud neu ddwy oedd angen. Doedd y bedd ddim yn ddigon hir, ond wrth gwrs roedd posib plygu'r fraich. Gosodais hi yn y bedd a mynd yn ddirifol dros ben. Erbyn hyn roedd hi'n nosi, a'r niwl wedi codi o'r dŵr a chuddio'r tir. Roedd o'n gwlychu fy ngwyneb ac roedd fy nwylo i'n fferru, ond mi safais yn gefnsyth wrth fedd y fraich anadnabyddus ac adrodd cymaint ag y gallwn ei gofio o Weddi'r Arglwydd. Wedyn mi genais i 'O Deuwch Ffyddloniaid' a rhoi pregeth fer.

"Yma yr hun a braich. Tynnwyd hi o'r dŵr y prynhawn hwn gan Felix Lauritzen, yn ymyl Kleinulsby. Braich gwraig ydyw, ac mi dorwyd hi gan rywun efo bwyell. Braich dda oedd hon, roedd hi'n ddefnyddiol iawn ac yn brydferth. Yn awr mae Duw wedi ei galw yn ôl i'w fynwes. Ffarweliwn â hi mewn galar dirfawr. Bydded i'r fraich orffwys mewn hedd. Yn enw y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân."

Ar y geiriau olaf mi deflais dri llond llaw o bridd i'r bedd. Am ei bod hi bron yn dywyll, fuasai gen i ddim amser i ddod yn ôl yn nes ymlaen a llenwi'r bedd wrth fy mhwsau. Felly aberthais y Fendith a bwrw'n iddi'n syth. Gwthiais y pentwr pridd i gyd yn ôl i'r twll efo fy nwylo a'i dampio i lawr. Gan nad oedd hi'n dymor blodau, mi ystyriais beth allwn i ei roi ar y bedd newydd yn eu lle. Mi dynnais y fodrwy oeddwn i wedi ei chael yn anrheg yn swyddfa'r deintydd (ac nad oedd Gunnar erioed wedi ei medru ei diodde beth bynnag), a'i thurio i'r pridd nes oedd dim ond y garreg goch i'w gweld. Roedd hyn yn edrych yn swel dros ben. Ond wedi'r cyfan, nid bedd aderyn y to cyffredin neu lygoden daear mo hwn.

"Amen" medde fi'n gyflym, a rhedeg yr holl ffordd adref er mwyn peidio â chael drwg.



This sample translation was done on occasion of the **HALMA grant** of the author **Mareike Krügel** who stayed as a writer-in-residence at the **Ty Newydd** in Wales February 2010.

The original was translated from English by **Mererid Puw Davies**.



HALMA The European Network of Literary Centres e.V. 2010
www.halma-network.eu
mail@halma-network.eu